Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

# Newyddlen #4 Mawrth / Ebrill 2024

## Partneriaethau

**Mae gweithio mewn partneriaeth gyda amryw ddarparwyr addysg gerddoriaeth led led Cymru yn un o flaenoriaethau y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol.**

**Mae'n allweddol ein bod yn meithrin a datblygu ein perthynas gyda partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gan gyd-weithio gydag amrediad o grwpiau cerddoriaeth cymunedol, sefydliadau ieuenctid lleol, bandiau pres a chorau - yn ogystal â sefydliadau cenedlaethol, awdurdodau lleol, partneriaethau cymdeithasol a llawer mwy. Yn y newyddlen hwn ein bwriad ydy rhoi blas i chi o ran o'r gwaith sydd eisoes ar droed gyda rhai o'n partneriaid.**





MALDWYN 2024
EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD

### Mynediad am ddim at draciau ymarfer Eisteddfod yr Urdd

Mewn cydweithrediad â **Charanga Cymru** ac **Eisteddfod yr Urdd** fe gyhoeddodd **Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru** ddatblygiad newydd, fydd yn agor y drws i fwy o blant Cymru fedru cymryd rhan ym mhrifwyl plant ac ieuenctid Cymru. Fel rhan o'r bartneriaeth newydd – y cyntaf o'i math rhwng GCC Cymru ac Eisteddfod yr Urdd – cafodd traciau ymarfer ar gyfer darnau gosod yn y categorïau canu Blwyddyn 6 ac iau Eisteddfod Sir Drefaldwyn 2024 eu cyhoeddi ar blatfform ar-lein Charanga Cymru.

Y nod yw cynyddu'r cyfle i blant ddysgu ac ymarfer y darnau gosod wrth roi cyfle i fwy o bobl ifanc a'u hathrawon gymryd rhan yng ngŵyl ddiwylliannol ieuenctid fwyaf Cymru. Yn ogystal â'r traciau ymarfer, gall plant ddefnyddio YuStudio, gweithfan sain ddigidol Charanga (DAW), i gefnogi eu ceisiadau yng nghategorïau Cyfansoddi Cerddoriaeth yr ŵyl. Bydd y traciau ymarfer yn helpu tiwtoriaid ac yn rhoi cyfle cyfartal i bawb.

Mae GCC Cymru ac Eisteddfod yr Urdd hefyd yn bwriadu ychwanegu at y cynnig dros y blynyddoedd nesaf. Ar ôl Eisteddfod Urdd Maldwyn 2024, bydd y traciau yn parhau ar gael i bob ysgol sy'n defnyddio Charanga Cymru i gefnogi eu haddysg gerddoriaeth o ddydd i ddydd. Platfform cerdd digidol yw Charanga Cymru sydd wedi bod ar gael am ddim i holl ysgolion Cymru ers mis Hydref 2022, diolch i fuddsoddiad gan y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol. Hyd yn hyn, mae dros 1,000 o ysgolion wedi mewngofnodi i'w cyfrifon, ac mae gan fwy na 3,100 o athrawon yn yr ysgolion hynny eu cyswllt personol eu hunain i'r platfform.

Roedd yr ymateb yn arbennig, gyda rhieni, athrawon a thiwtoriaid yn dweud bod yr adnodd yn mynd i fod o gymorth enfawr iddyn nhw. Mae rhai ysgolion wedi penderfynu cystadlu eleni am fod ganddyn nhw'r adnodd yma I ymarfer – gyda rhai yn cystadlu am y tro cyntaf erioed. Pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir dros yr wythnosau nesaf!


Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**
CLILC WLGA

## Cwrs hyfforddi ar weithio'n gynhwysol drwy gerddoriaeth

Mae elusen **Music Masters**, mewn partneriaeth newydd gyda Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru, wedi datblygu 'modiwlau' hyfforddi pwrpasol i rymuso a chodi hyder athrawon cerdd yng Nghymru.

Cwrs hyfforddi peilot oedd Grymuso Addysgwyr, a gafodd ei ddatblygu mewn ymateb i agweddau ar gynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth a drafodwyd yn y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth (Cymru), ac fel dimensiwn penodol i Gymru o raglen TAR Meistr Cerddoriaeth, Musicians of Change, y flwyddyn academaidd hon. Gan ddefnyddio arweinyddiaeth cwrs Katrina Damigos, Musicians of Change, ac ymchwil a phrofiad Dr Beth Pickard o Brifysgol De Cymru mewn astudiaethau anabledd critigol ac addysg gerddoriaeth gynhwysol, roedd y modiwl hyfforddi cyntaf yn canolbwyntio ar gynyddu dealltwriaeth addysgwyr cerdd ar sut i weithio'n gwbl gynhwysol.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ym mis Rhagfyr 2023 gyda'r cerddorion anabl Ellen Davies, Gareth Churchill, Siobhan Clough a Rebecca Jolliffe, er mwyn llywio ffocws yr hyfforddiant. Gyda'u mewnwelediad a'u harbenigedd, cafodd rhaglen o theori, athroniaeth, gweithgareddau a myfyrdodau ei rannu gyda thiwtoriaid y gwasanaeth cerddoriaeth a chydweithwyr addysg gerddorol ehangach dros ddau ddiwrnod yng Nghanolfan Fwyd Bodnant yng Nghonwy ym mis Ionawr 2024. Uchafbwynt yr hyfforddiant oedd trafodaeth banel, lle rhannodd **Rebecca Jolliffe** a **Right Keys** eu profiadau byw, ac ymateb i bwyntiau trafod wedi'u llywio gan y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth ac ymchwil gyfoes i brofiadau cerddorion anabl. Rhannodd **Alex Lupo** ei brofiad byw a phroffesiynol ar draws ystod eang o gyd-destunau i ddarparu adnoddau a strategaethau creadigol a chyffrous i fynychwyr ar gyfer datblygu cynhwysedd eu darpariaeth.

Cafwyd ymateb gwych i'r cwrs, gyda phobl un yn nodi bod eu hyder yn eu gallu i ddatblygu darpariaeth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cynyddu yn sgil y sesiynnau. Dywedodd un bod y cwrs yn "llawn gwybodaeth defnyddiol", tra bod un arall wedi profi "amser gwerthfawr gyda grwp o gerddorion gwych.

Mae Music Masters nawr yn cefnogi nifer o'r cyfranogwyr trwy eu cynllunio. Bydd rhestr adnoddau yn cyd-fynd â'r hyfforddiant, wedi'i lywio a'i ysgrifennu gan gerddorion Cymraeg, anabl. Bydd cwrs deuddydd arall y modiwl hwn yn cael ei gynnal yng nghanolfan YMa Pontypridd ar Fawrth 4 & 5 2024, lle bydd Ruth Montgomery, Right Keys Only, Gareth Churchill a Rhian Davies yn rhannu eu harbenigedd gyda chynrychiolwyr yn Ne Cymru. Mae'r cwrs yn agored i unrhyw addysgwr yng Nghymru. Os hoffech chi fynychu'r cwrs, anfonwch neges at postgcc@wlga.gov.uk.





## Cerddorfa Agored / Open Orchestra

**Cerddorfeydd Agored** yw'r gymuned fwyaf o ensemblau cynhwysol yn y DU ac mae'n cefnogi cyflwyno'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yng Nghymru.

Mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cerdd lleol ac ysgolion arbennig, mae ein rhaglen arloesol yn gwneud dysgu offeryn a chwarae gydag eraill yn annibynnol, yn fynegiannol ac mewn amser go iawn sy'n hygyrch i bob myfyriwr anabl 8-18 oed. Am fwy o wybodaeth ar sut i gychwyn eich Cerddorfa Agored eich hun, ewch i'n gwefan www.openorchestras.org

*Cofrestru yn agor ar 01 Mawrth 2024.*



## Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

Mae'n tri uwch aelod o **Fand Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru** (BPCIC) wedi cael eu dewis i gynrychioli Cymru yn y Band Pres Ieuenctid Ewropeaidd (EYBB) blynyddol eleni.

Bydd Alice Tracey o Abertawe, Erin Maloney o Ynys Môn, a Patrick Miller o Gasnewydd (sydd wedi bod yn aelodau o'r CCIC ers 2019) yn teithio i Palanga, Lithwania ddiwedd mis Ebrill. Yn ogystal â chynrychioli BPCIC, bydd Alice a Patrick hefyd yn cynrychioli Band Pres Llwyncoed ac Erin yn cynrychioli Band Flowers.

Er bod y tri bellach yn fyfyrwyr yng **Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**, mae'r tri wedi profi llwybrau cerddorol gyda'u Gwasanethau Cerdd sirol a gyda'u bandiau pres lleol – Erin gyda Band Pres Biwmares, Alice gyda Gwasanaeth Cerdd Gorllewin Morgannwg, ac roedd Patrick yn aelod o Fand Pres Bwrdeistref Casnewydd.

Bydd amser y tri gyda Band Pres Ieuenctid Ewrop yn dod i ben gyda chyfres o gyngherddau'n cael eu cynnal yn ystod wythnos gyntaf mis Mai.

Yn ystod yr un wythnos bydd nifer fawr o bobl ifanc o fanciau pres led-led Cymru hefyd yn teithio i Lithwania i gystadlu yng nghystadleuaeth Band Pres Ewrop. Y gystadleuaeth hon ydy un o'r gwobrau mwyaf yng nghalendr y Bandiau Pres. Ry'n ni'n dymuno'n dda iawn iddyn nhw i gyd!



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CLlLC WLGA



## Cyfweliad Llio

**Yn ein newyddlen ry'n ni am roi'r cyfle i chi ddod i nabod rhai sy'n ymwneud âg addysg gerdd yng Nghymru. Mae Eisteddfod yr Urdd a Gwasanaeth Cerdd Cymru wedi cyhoeddi partneriaeth i osod traciau ymarfer ar gyfer darnau gosod yn y categorïau canu am ddim i ysgolion Cymru ar blatfform ar-lein Charanga Cymru. Y tro hwn, ry'n ni am siarad gyda Llio Maddocks o'r Urdd.**

**Enw: Llio Maddocks**
**Swydd: Cyfarwyddwr y Celfyddydau, Urdd Gobaith Cymru.**

**1**
**Ble gawsoch chi eich magu?**
*Ges i fy magu yn Llan Ffestiniog, wrth droed y Moelwynion. Dwi'n gweld y mynyddoedd a'r môr o fy stafell wely wreiddiol, felly mae rheiny yn sicr wedi fy helpu i fod yn berson creadigol! Ro'n i'n byw tafliad carreg o Afon Cynfal, sydd wedi ei wreiddio yn straeon y Mabinogi, felly mae dweud straeon drwy'r celfyddydau wastad wedi bod yn ran ohona i. Ond erbyn hyn dwi'n byw yng Nghaerdydd a dwi wrth fy modd yno – mae 'na gymaint i'w wneud, a lot o waith cyffrous yn dod o'r ddinas ar hyn o bryd! Mae'n neis gallu piciad i'r theatr neu i gig, ac mae popeth ar stepan y drws.*

**2**
**Ydych chi'n cofio eich profiad cerddorol cyntaf chi?**
*Mae'n siŵr mai canu yn Eisteddfod Cylch Ffestiniog oedd fy mhrofiad cerddorol cyntaf i. Dyna lwcus ydyn ni yma yng Nghymru o gael traddodiad o ganu o flaen cynulleidfa. Ro'n i wastad yn teimlo'n saff ar lwyfan Steddfod, boed hynny gyda'r Urdd neu mewn Eisteddfodau lleol. Ac roedd gen i athro cerdd ffantastig yn y Moelwyn – Owain Arwel Davies – oedd yn gwneud cerddoriaeth yn hwyl drwy chwarae'r trombôn i ni. Mae athrawon da yn amhrisiadwy yn dydi, ac yn sicr fe wnaeth Arwel (neu Boi Cerdd, fel oedda ni'n ei alw'n annwyl), fy ysbrydoli i arbrofi a chreu synau. Doedd dim rhaid i bopeth swnio'n dda. Cael hwyl drwy gerddoriaeth oedd ei ethos o.*

**3**
**Mae'r Urdd newydd gyhoeddi partneriaeth newydd gyda Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru a Charanga Cymru. Sut fydd plant yn elwa o hwn?**
*Mae'r bartneriaeth hon mor bwysig i ni, i sicrhau fod pob plentyn yn cael cefnogaeth i ymarfer a mwynhau darnau'r Urdd. Nid pawb sydd â phiano yn y tŷ, ond mae cael traciau ar gael am ddim yn gallu cefnogi pob plentyn sydd eisiau rhoi tro arni i fynd amdani! Gobeithio y bydd yn adnodd defnyddiol i athrawon a hyfforddwyr hefyd, ac eu bod hwythau yn gallu annog eu disgyblion i fod yn ddewr. 'Da ni'n awyddus i dyfu ar y bartneriaeth hon i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle a'r profiad o fod ar lwyfan yr Eisteddfod, neu i fwynhau drwy gerddoriaeth. Achos dyna sy'n bwysig – y cymryd rhan.*

**4**
**Ry'ch chi'n paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024 ym mis Mai. Sut allwch chi berswadio rhywun sydd erioed wedi bod i'r Eisteddfod i ddod am ddiwrnod?**
*Does 'na unman fel Eisteddfod yr Urdd. Mae gwylio plant a phobl ifanc yn rhedeg o un Pafiliwn i'r llall yn wefr yn ei hun; mae Eisteddfod yr Urdd yn ddathliad ac yn uchafbwynt ar ôl misoedd o ymarfer, ac mae'n fraint bod cymaint o gystadleuwyr yn cymryd rhan. Dwi wrth fy modd yn gwylio plant yn camu ar y llwyfan am y tro cyntaf, ac yn teimlo cynhesrwydd y gynulleidfa o'u blaenau. Does dim teimlad tebyg. Ond yn ogystal â'r cystadlu, mae cymaint o gyfleoedd i roi cynnig arni ar y maes, drwy weithdai a digwyddiadau drwy gydol yr wythnos. Mae'n le cwbl saff, ac yn annog miloedd o blant i ddechrau ar eu llwybr celfyddydol. Mae teimlad o gymuned yno, a phawb mor gefnogol o'i gilydd. Mae'n le diogel i deimlo cyffro cerddoriaeth.*

**5**
**Beth yw'r gyngerdd orau i chi fod iddo erioed?**
*Heb os nac oni bai, gwylio Björk yn Bestival yw fy hoff brofiad cerddorol. Mae hi'n arallfydol, ac yn mynd â chi i blaned arall drwy ei llais a'i cherddoriaeth gwbl unigryw. Ond dwi hefyd yn edrych ymlaen i'n cyngherddau yn ystod Eisteddfod yr Urdd – detholiad o sioeau Cwmni Theatr Maldwyn gan y sioe gynradd, a sioe gerdd gyda chaneuon poblogaidd Rhydian Meilir gan y cast uwchradd. Gallai eich sicrhau y bydd rheiny'n berfformiadau i'w cofio, a bydd cannoedd o blant a phobl ifanc Maldwyn yn cael joio morio canu ar lwyfan y Pafiliwn!*









## Fforwm Agored – Pontio

Cafodd **Fforwm Agored** cyntaf Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol ei gynnal yn Pontio ym Mangor ar 14 Tachwedd 2023. Crëwyd y Fforwm Agored gan y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol a Fforwm Partneriaeth Cerdd Cymru fel gofod i bobl archwilio pynciau cyfredol mewn addysg cerddoriaeth, clywed am gynnydd y Cynllun Addysg Cerddoriaeth Genedlaethol, rhwydweithio a rhannu cyfleoedd. Thema'r cyfarfod cyntaf hwn oedd llwybrau mewn addysg cerddoriaeth.

Dechreuodd y Fforwm gyda chroeso gan **Osian Gwynn**, Cyfarwyddwr Pontio, a chyflwyniad gan Gydlynydd Datblygu Celfyddydau Pontio, Mared Elliw Huws, yn archwilio peth o'r gwaith prosiect y mae Pontio yn ei wneud gydag ysgolion a phobl ifanc

Wedi'r croeso cynnes, cawsom gyfres o ddiweddariadau gan y gwahanol bartneriaid sy'n cyflwyno'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerdd yng Nghymru. Rhoddodd Cydlynydd y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol, **Mari Pritchard**, drosolwg o'r rhaglen ledled Cymru a rhai ystadegau allweddol o'r ddarpariaeth hyd yn hyn. Mae'r holl wasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru yn cymryd rhan yn y Cynllun, ac mae 60% o ysgolion wedi profi'r rhaglen Profiadau Cyntaf – rhaglen sy'n darparu 6 wythnos o brofiadau cerddoriaeth am ddim i blant ysgolion cynradd; Mae Charanga Cymru wedi cael ei chyflwyno fel llwyfan cerddoriaeth pwrpasol i athrawon yng Nghymru; Mae ensemblau newydd wedi cael eu cyflwyno ym mhob sir, ac mae'r cynnig digidol hefyd yn cynyddu ledled Cymru. Soniodd Mari hefyd am rai o'r partneriaethau a oedd yn cael eu creu gyda sefydliadau cerddoriaeth ledled Cymru a thu hwnt i gefnogi gwaith y Cynllun Cenedlaethol.

Rhoddodd **Heather Powell**, Cyfarwyddwr Cwmni Cyd-weithredol Cerdd Dinbych a Wrecsam, drosolwg o'r gwaith sy'n digwydd ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys diwrnod hyfforddi ar y cyd i diwtoriaid o bob cornel o'r rhanbarth. Bu Tudur Eames wedyn yn amlinellu'r gwaith a oedd yn cael ei gyflawni drwy Wasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn. Dywedodd wrth y gynulleidfa fod nifer y gwersi cerddoriaeth sy'n cael eu cyflwyno mewn ysgolion yn y ddwy sir wedi cynyddu. Clywodd y fforwm hefyd bod partneriaethau cryf yn cael eu hadeiladu ar draws y rhanbarth rhwng ysgolion, yr awdurdod lleol, ac ystod eang o sefydliadau celfyddydol ac artistiaid i gyflwyno cerddoriaeth a'r Cwricwlwm Celfyddydau Mynegiannol ehangach mewn ysgolion.

Cyflwynodd **Tudur Eames** astudiaeth achos o'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd mewn ysgolion arbennig ar draws y rhanbarth, a chafodd fideo o'r gwaith sydd wedi bod yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Addysg Y Bont yn Llangefni ei dangos i'r gynulleidfa. Roedd y fideo yn dangos taith gerddorol pedwar disgybl o'r ganolfan oedd yn dysgu trombôn, piano a drymiau gyda thiwtoriaid un-i-un. Roedd yn wych gweld maint brwdfrydedd y disgyblion, a faint o gynnydd yr oedden nhw wedi'i wneud mewn cyfnod mor fyr.

Mewn gweithdy dan arweiniad **Alan Thomas Williams**, Swyddog Cyflawniad Tîm Cwricwlwm Caerdydd cafodd prif bwyntiau cwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol eu cyflwyno I'r gynulleidfa. Amlinellodd hefyd y broses o newid sydd ar y gweill ar hyn o bryd o amgylch TGAU. Mae Tîm Cwricwlwm Caerdydd yn cefnogi'r cwricwlwm gyda chynnig o weithgareddau a phrofiadau, gan gysylltu ysgolion, y gwasanaeth cerddoriaeth, a sefydliadau cerddoriaeth ledled Caerdydd gan gynnwys Coleg Cerdd a Drama Frenhinol Cymru, a Chanolfan Mileniwm Cymru.

Yn olaf, cadeiriodd **Tim Rhys-Evans**, Cyfarwyddwr Cerdd Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, drafodaeth banel a oedd yn archwilio llwybrau cerddoriaeth yng Nghymru. Ymunodd y cynhyrchydd cerddoriaeth Endaf Roberts, y delynores Elfair Grug, y cerddor a'r trefnydd Nathan Williams, a'r canwr-gyfansoddwr Eadyth Crawford â'r panel, ac fe amlinellodd pob artist eu taith mewn cerddoriaeth a'r hyn oedd wedi dylanwadu arnynt a'u hysbrydoli. Roedd yn ddiddorol gweld y gwahanol ffyrdd yr oedd pob person wedi eu profi. Yr hyn a oedd yn drawiadol oedd yr ystod o sgiliau yr oedd pob aelod o'r panel wedi'u meistroli er mwyn adeiladu eu gyrfa fel cerddor, gan gynnwys addysgu, rhedeg label recordio, cynhyrchu, a hyrwyddo. Cafwyd trafodaeth eang a oedd yn cynnwys nifer o bynciau: sut nad yw dysgu cerddoriaeth yn yr ysgol bob amser yn iawn i bawb a bod angen i rai pobl ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â cherddoriaeth; sut i ennyn diddordeb pobl ifanc gyda cherddoriaeth ddigidol nawr bod y feddalwedd honno'n llawer haws ei chyrchu; sut i ddysgu ymwybyddiaeth o fusnes cerddoriaeth; mynediad cyfartal i wahanol offerynnau; sut i adeiladu partneriaethau cryfach gydag Addysg Bellach fel adnodd.

**Bydd yr ail Fforwm Agored yn cael ei gynnal yng YMa Pontypridd ar 28 Chwefror 2024.**

## Ein gwefan

Mae sawl parth newydd wedi agor ar ein gwefan, felly cofiwch fynd i www.gwasanaethcerdd.cymru yn gyson i weld beth sy'n newydd yno. Yno hefyd mae tudalen i ysgolion gofrestru ar gyfer **Charanga Cymru**.

Ry'n ni'n rhannu pob math o newyddion ar ein cyfrifon cymdeithasol, felly chwiliwch amdanon ni ar **Facebook**, **Instagram** ac **X**. Mae ganddon ni sianel YouTube newydd, sydd â fideo o flwyddyn gyffrous gyntaf ein rhaglen waith, Profiadau Cyntaf, a ffilm arbennig o Ganolfan Addysg y Bont, Ynys Môn. Mae lincs i'r holl safleoedd yma ar ein gwefan.